Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Rhosneigr

**Ysgol Gynradd Rhosneigr**
**Sandy Lane**
**Rhosneigr**
**Ynys Môn**
**LL64 5XA**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Rhosneigr

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Rhosneigr |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Joanne Goddard |
| Person â gofal | Rachel Hughes |
| Nifer y lleoedd | 10 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 2 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 1 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Llun-Gwener 9.00-3.00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg ac yn dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolygiad cyntaf ers cofrestru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Arolygiad cyntaf ers cofrestru. |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 06/02/2024 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

**Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.**

## Argymhellion

A1 Lledaenu'r arferion cryfaf wrth hyrwyddo dealltwriaeth y plant o'r Gymraeg

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn annibynnol o fewn y lleoliad. Maent yn mwynhau'r rhyddid i symud yn llwyddiannus o amgylch y gweithgareddau sy'n cael eu darparu ar eu cyfer y tu mewn a thu allan. Mae bron pob un yn cyrraedd yn hapus ac yn ymateb yn dda wrth i'r ymarferwyr eu cyfarch yn gadarnhaol. Maent yn mwynhau estyn am adnoddau yn annibynnol yn syth ar ôl cyrraedd ac yn hyderus wrth benderfynu ar ba adnoddau maent eisiau eu defnyddio. Er enghraifft, maent yn tynnu lluniau wrth y bwrdd tynnu llun, yn gwneud siapiau yn y twba tywod neu'n chwarae rôl gyda theganau. Mae'r plant yn gwybod bod eu dymuniadau a'u teimladau yn cael eu hystyried yn llawn. Er enghraifft, maent yn dod â theganau meddal o'r cartref i gynorthwyo â'r broses o ymgartrefu a magu hyder. Wrth i'r amser fynd yn ei flaen, maent yn anghofio am y teganau wrth iddynt ymlacio a chymryd rhan yn y gweithgareddau.

Mae'r plant yn setlo'n gyflym ac yn teimlo'n gartrefol yn y lleoliad. Maent yn ymdopi'n dda wrth adael eu rhieni a'u gofalwyr ac maent yn teimlo'n ddiogel. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o blant yn rhedeg i mewn i'r lleoliad ac yn cyfarch eu ffrindiau'n hapus. Mae bron pob un yn ymdopi'n dda o fewn y lleoliad ac yn hyderus i ofyn am gymorth gan y staff ac ymwelwyr.

Mae bron pob plentyn yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a gyda'r oedolion. Maent yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu medrau cymdeithasol wrth sgwrsio a rhannu diddordebau. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn trafod archarwr ynghyd â'i bwerau arbennig. Maent yn parchu teimladau a diddordebau eraill ac yn dysgu i gymryd tro. Er enghraifft, maent yn cydweithio wrth ddefnyddio'r offer technoleg gwybodaeth a'r beiciau y tu allan. Maent yn barod i gefnogi ei gilydd trwy gyd-chwarae a rhannu'r

tractor, yr hofrennydd a’r llyfrau stori. Mae bron pob un yn datblygu perthnasoedd buddiol a naturiol â’r ymarferwyr ac oedolion eraill. Maent yn hyderus i holi ymarferwyr am gymorth neu i gael cysur, pan fo angen.

Mae bron pob plentyn yn dangos brwdfrydedd gwerthfawr yn eu chwarae ac yn rheoli eu hymddygiad yn dda. Maent yn mwynhau chwarae gyda'i gilydd ac yn dysgu sut i ddeall anghenion eraill. Mae'r plant yn gyfarwydd iawn â threfniadau'r dydd, fel amser carped neu fyrbryd. Maent yn llwyddo i ganolbwyntio ac i ddyfalbarhau, ac mae llawer ohonynt yn treulio cyfnodau estynedig yn cymryd rhan yn y gweithgareddau, er enghraifft wrth chwarae yn y twba reis neu gyda’r teganau. Mae’r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu annibyniaeth, sy’n eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain. Er enghraifft, gall y rhan fwyaf wisgo eu cotiau eu hunain, golchi eu dwylo ac yna ‘nôl eu cinio o’u bag. Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol wrth iddynt olchi a sychu eu dwylo a bwyta eu cinio a byrbryd. Maent yn datrys problemau ymarferol yn aeddfed, er enghraifft wrth ddefnyddio brwsh paent glân i symud delweddau ym mhen uchaf y bwrdd gwyn rhyngweithiol sydd y tu hwnt i’w cyrraedd.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu’r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o’u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel. Maent yn cynnal gweithdrefnau iechyd a diogelwch y lleoliad yn llwyddiannus trwy gwblhau gwiriadau dyddiol o'r amgylchedd. Maent yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau’r lleoliad yn effeithiol. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau i amddiffyn y plant ac maent yn diweddaru eu hyfforddiant diogelu yn brydlon. O ganlyniad, mae’r trefniadau ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o sut i ymdrin â damweiniau a digwyddiadau ac yn eu cofnodi’n bwrpasol. Mae ganddynt dystysgrifau cymorth cyntaf cyfredol. Mae’r ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau o ran gweinyddu a storio meddyginiaeth yn ddiogel. Mae ganddynt dystysgrifau hylendid bwyd cyfredol ac mae’r gweithdrefnau yn effeithiol. Maent yn sicrhau preifatrwydd addas i blant wrth ddilyn y polisi newid cewynnau ac maent yn cadw cofnodion pwrpasol. Mae gan yr ymarferwyr system gofrestru effeithiol a threfnus ac maent yn sicrhau bod cofnodion caniatâd yn eu lle.

Mae gan ymarferwyr berthynas gynnes a naturiol â’r plant ac maent yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn garedig a chlywir chwerthin iach a chyson rhwng yr ymarferwyr a’r plant. Mae’r ymarferwyr yn annog plant i ymddwyn yn briodol gan ddysgu i rannu ac aros a chymryd eu tro. Maent yn canmol y plant yn gyson, sydd yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu medrau, eu dealltwriaeth o arferion, a’u hunanhyder. Yn ystod amser byrbryd, cynigir cyfleoedd i'r plant gymdeithasu o amgylch un bwrdd

pwrpasol. Mae ymarferwyr yn annog y plant i ddysgu am bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach.

Mae’r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o’u hanghenion a’u dymuniadau unigol. Maent yn sylwi ar ddiddordebau’r plant ac yn gweithredu arnynt. Er enghraifft, wrth drafod injan dân, maent yn tynnu sylw’r plant at lyfrau Sam Tan ac yn mwynhau trafod y stori gyda’i gilydd. Mae’r ymarferwyr yn arsylwi ar blant mewn modd sensitif ac effeithiol ac yn adnabod pryd i ofyn cwestiynau. Maent yn cynnig esboniadau a syniadau er mwyn annog y plant i feddwl a datrys problemau. Maent yn hyrwyddo’r sgwrs trwy ofyn cwestiynau yn bwrpasol.

Maent yn darparu’n dda ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol trwy gysylltiadau effeithiol ag asiantaethau allanol. Mae’r arweiniad a gynigir yn cael ei roi ar waith. Er enghraifft, maent yn gwneud defnydd o raglen briodol i gefnogi anghenion cyfathrebu’r plant.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn rhyngweithio’n hamddenol a naturiol â’r plant ac mae’r berthynas ofalgar hon yn amlwg ym mhob agwedd o waith y lleoliad. Maent yn addasu’r dulliau addysgu’n effeithiol. Pan fo angen, maent yn dysgu’r plant i ddatblygu medrau penodol, er enghraifft wrth ddangos iddynt sut i reoli cyfeiriad ceir bach electronig. Maent hefyd yn deall pwysigrwydd caniatáu i’r plant fwynhau chwarae am gyfnodau estynedig. Maent yn cynnal cyfnodau grŵp buddiol a sionc lle mae’r plant yn dysgu i rannu syniadau a chyd-ganu caneuon cyfarwydd. Mae ymarferwyr yn dangos hyblygrwydd gan eu bod yn deall nad yw pob unigolyn eto’n barod i eistedd mewn cylch am gyfnod.

Mae’r ymarferwyr yn annog datblygiad llafar Cymraeg y plant yn effeithiol. Lle mae’r arfer hon ar ei gorau, maent yn bwydo iaith yn gyson ac o ganlyniad mae dealltwriaeth y plant yn datblygu’n dda. Mae’r ymarferwyr yn cydweithio’n effeithiol er mwyn sicrhau bod yr arferion hyn yn gyson ac yn cael yr effaith orau bosibl ar ddealltwriaeth a chynnydd ieithyddol y plant.

Mae ymarferwyr yn defnyddio dull hwylus o gynllunio ar gyfer datblygu medrau’r plant. Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd cynnar y plant yn effeithiol dros ben. Mae llyfrau diddorol a lliwgar wedi eu lleoli ym mhob ardal o’r ddarpariaeth ac mae hyn yn annog y plant i ymgysylltu’n llawn. Mae’r ymarferwyr yn creu awyrgylch lle mae boddhad a phleser mewn llyfrau a straeon yn ganolog i’w holl waith. Mae’r plant yn hyderus wrth fynd i ‘nôl llyfr a mynd at ymarferwyr er mwyn cael cyfle i wrando ar y stori. Mae’r ymarferwyr yn darllen yn grefftus, gan gymeriadu’n effeithiol er mwyn datblygu dychymyg y plant.

Mae’r ymarferwyr yn darparu ystod effeithiol o gyfleoedd ac adnoddau i ddatblygu medrau rhif y plant. Er enghraifft, mae’r plant yn dysgu i gyfri hyd at 5 gan adnabod y siapiau sy’n cyfateb i’r gwahanol ddigidau. Mae’r plant yn mwynhau cyfleoedd i ddefnyddio’r sgrin fawr er mwyn datblygu eu medrau digidol. Maent yn adnabod pa siapiau sy’n cyfateb i’w gilydd ac yn eu symud ar y sgrin yn fedrus.

Tu allan i’r adeilad, mae amrediad cyfoethog o adnoddau mawr sy’n darparu cyfleoedd buddiol i’r plant ddatblygu eu medrau corfforol. Trwy hyn, mae’r plant yn datblygu dealltwriaeth o sut i reoli risgiau wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â’r mannau yr hoffent chwarae ynddynt. Maent wrth eu boddau’n chwarae â'r offer dŵr gan weithio’r pwmp er mwyn cael y dŵr i lifo o un beipen i’r llall, ar hyd y nant fechan, ac o dan y bont.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol y plant yn effeithiol. Caiff y plant gyfleoedd i ddysgu am ddigwyddiadau cyffrous mewn diwylliannau eraill, er enghraifft wrth ddathlu’r flwyddyn newydd Tsieineaidd. Trwy gyfrwng y gwaith hwn, mae’r plant yn mwynhau cyfleoedd i ddatblygu eu medrau modur mân a’u creadigrwydd yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn dysgu am bwysigrwydd lliwiau coch a melyn i bobl o dras Tsieineaidd, gan greu siapiau amrywiol gyda’r toes ac wrth greu lluniau o ddreigiau.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o’u cynefin yn fuddiol, er enghraifft wrth ddathlu hanes y Santes leol, Dwynwen, gan greu cardiau ar gyfer aelodau’r teulu. Maent yn dathlu digwyddiadau elusennol, ac yn nodi Sul y cofio trwy greu eu pabi coch eu hunain o wahanol ddeunyddiau.

Mae ymarferwyr yn monitro cynnydd y plant yn effeithiol trwy’r ‘daith dysgu’ sy’n crynhoi datblygiadau ym medrau a hyder y plant. Mae arddull a meddylfryd y drefn hon yn rhoi pwyslais buddiol ar agwedd gadarnhaol ac mae’n fodd hwylus o rannu gwybodaeth gyda rhieni.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân iawn. Maent yn cau’r gatiau ac yn cloi’r drws yn brydlon. Nid oes modd i ymwelwyr gael mynediad na gadael y lleoliad ar unrhyw adeg oni bai fod ymarferwyr yn eu tywys. Mae ymwelwyr yn mewngofnodi’n brydlon ac mae ymarferwyr yn cadw’r holl gofnodion sy’n ymwneud â’r gwasanaeth yn ddiogel ar y safle. Mae cofnodion cynnal a chadw’r adeilad yn gyfredol ac mae arweinwyr yn sicrhau bod ymarferion tân yn digwydd yn rheolaidd. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad a’r offer sy’n diogelu’r amgylchedd yn cael eu gwasanaethu’n rheolaidd. Er enghraifft, maent yn cynnal yr offer tân a’r blychau cymorth cyntaf yn gyson. Mae arweinwyr yn cynnal asesiadau risg effeithiol a phwrpasol ac yn eu hadolygu’n rheolaidd. Maent yn cadw cofrestr plant ac ymarferwyr yn fanwl a chywir.

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd groesawgar a chynnes. Mae’r lleoliad yn hunangynhwysol, yn ddiogel ac yn cynnig digon o le ar gyfer y nifer o blant sy’n mynychu’n ddyddiol. Mae toiledau addas a chyfleusterau newid cewynnau ar gael. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o’r prif fynedfa lle maent yn storio cotiau a chyfarpar o dan glo. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn caniatáu i blant chwarae tu allan, gan cynnig heriau a chyfleoedd i blant gymryd risg. Mae cydbwysedd effeithiol rhwng sicrhau diogelwch i blant a chynnig cyfleoedd i fentro’n ddiogel. Er enghraifft, mae’r adnoddau tu allan yn galluogi plant i ddatblygu eu medrau corfforol trwy gyfleoedd i ddringo ar raff neu’r stepiau dringo, ac wrth reidio

beiciau a cheir bach. Mae offer dringo ynghyd ag ardal greigiog isel ar gyfer chwarae gyda dŵr.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y dodrefn, y cyfarpar a'r adnoddau amrywiol o safon dda. Maent yn annog y plant i ddysgu trwy chwarae gydag amrywiaeth eang o adnoddau, gan sicrhau bod modd i'r plant ddewis yn annibynnol a dilyn eu diddordebau. Mae'r ymarferwyr yn annog datblygiad personol a chymdeithasol y plant trwy gynnig cyfleoedd iddynt brofi adnoddau amlddiwylliannol. Er enghraifft, wrth ddathlu bwydydd o wahanol ddiwylliannau, cânt fynediad i fwydlen, lluniau a chyfarpar megis 'chopsticks'. Mae ymarferwyr yn darparu arddangosfeydd lliwgar sy'n crybwyll dathliadau a digwyddiadau lleol a rhyngwladol megis Diwrnod Santes Dwynwen a lluniau o'r tywydd yn ystod y Gaeaf.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth gadarn ar gyfer darpariaeth hapus lle mae'r plant yn ffynnu mewn awyrgylch gartrefol a llawn cariad. Gyda chefnogaeth ei chydweithwyr, mae'n gwireddu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus. Mae'n ymroddgar iawn i'w gwaith, ac mae'r tîm cyfan yn cydweithio'n effeithiol er lles y plant yn eu gofal. Mae'r unigolyn cyfrifol a'r pwyllgor rheoli yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddatblygiad y lleoliad mewn modd ymarferol, er enghraifft wrth fuddsoddi cyllid er mwyn datblygu adnoddau yn yr ardal allanol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu cynnal a'u diweddaru'n rheolaidd yn unol â'r disgwyliadau rheoleiddio. Er enghraifft, mae'r datganiad o ddiben yn cynnig trosolwg effeithiol o waith y lleoliad.

Mae arweinwyr yn cynnal amrediad effeithiol o weithgarwch hunanwerthuso er mwyn adnabod cryfderau'r ddarpariaeth a'r elfennau sydd angen eu datblygu ymhellach. Mae'r gweithdrefnau hyn wedi gwreiddio'n gadarn ac yn cael dylanwad gwirioneddol ar y ddarpariaeth ac ar brofiadau dysgu'r plant. Mae'r blaenoriaethau gwella wedi eu rhannu'n gamau synhwyrol, ac yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd.

Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr berthynas agos a chefnogol â rhieni sydd â'u plant yn mynychu'r ddarpariaeth. Maent yn rhannu gwybodaeth fuddiol yn gyson trwy ddefnyddio dulliau digidol. Mae'r rhieni'n medru cysylltu'n uniongyrchol â'r arweinydd er mwyn holi unrhyw gwestiwn neu er mwyn gwneud sylw am gynnydd neu les eu plentyn.

Mae gan arweinwyr berthynas waith fuddiol â swyddogion tîm ymgynghorol blynyddoedd cynnar yr awdurdod addysg lleol. Mae'r berthynas hon yn aeddfed ac yn cyfrannu'n werthfawr at ddatblygiad y ddarpariaeth dros amser. Yn yr un modd, mae ganddynt berthynas weithio ymarferol a chefnogol â swyddogion y mudiad ymbarél sy'n cydweithio â nhw. Mae hyn yn sicrhau amrediad o bolisïau a gweithdrefnau a hyfforddiant buddiol sy'n cynnal y ddarpariaeth yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn gweithredu trefniadau recriwtio diogel, gan sicrhau bod gwiriadau staff yn cael eu cynnal a'u diweddaru'n briodol. Mae'r pwyllgor rheoli a'r arweinydd yn cynnal gweithdrefnau gwerthuso perfformiad staff yn rheolaidd, gan ddarparu cefnogaeth a hyfforddiant yn unol ag anghenion a diddordebau staff unigol. Enghraifft

nodedig o hyn yw’r hyfforddiant ar ddulliau amgen o gyfathrebu a fynychwyd er mwyn hwyluso cyfathrebu â’r holl blant sy’n mynychu’r cylch. Mae hyn wedi cael dylanwad cadarnhaol ar y modd y mae’r ddarpariaeth yn cefnogi plant sydd ag anghenion penodol.

Mae perthynas agos a buddiol â’r ysgolion lleol sy’n derbyn plant yn dilyn eu cyfnod yn y lleoliad. Mae’r staff yn hyrwyddo’r cydweithio hwn trwy sicrhau cyfleoedd i’r plant fynychu digwyddiadau fel eu bod yn ymgartrefu’n hwylus ar gychwyn y cam nesaf yn eu dysgu.

Mae’r lleoliad yn cydweithio’n fuddiol â’r gymuned leol yn Rhosneigr. Er enghraifft, mae’r plant yn ymweld â’r orsaf dân sydd wedi ei lleoli yn agos at y lleoliad, gan gyfarfod yr ymladdwyr tân a dysgu am eu gwaith. Mae hyn yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o’u cymuned leol yn llwyddiannus.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol/Prysg (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/04/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 11 Ebrill 2024